# Ffurflen Gais Ymddiriedolaeth ateb

Mae Ymddiriedolaeth ateb yn darparu grantiau i unigolion, grwpiau cymunedol a phrosiectau sy'n hybu lles ac yn gwella cymunedau mewn ardaloedd lle mae ateb yn gweithio. Caiff grantiau eu dyfarnu i fentrau sy'n cyd-fynd â'n diben, sef galluogi pobl i fyw'n well drwy gael cartrefi saff, diogel a sefydlog.

## Ein diben

Rydym yn credu bod cartref yn fwy nag adeilad yn unig — mae'n sylfaen ar gyfer byw'n dda. Mae Ymddiriedolaeth ateb yn cefnogi:

- Meithrin capasiti cymunedol a hunangynhaliaeth.
- Adfywio cymunedol drwy raglenni cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a rhaglenni lles.
- Cynorthwyo pobl hŷn ac agored i niwed i barhau i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau wrth i'w hanghenion newid.

Nod y grantiau yw creu cyfleoedd cynaliadwy i'r sawl y mae arnynt eu hangen fwyaf, gan wella bywydau cwsmeriaid ateb a'u cymunedau.

## Manylion y cyllid

- **Uchafswm grant**: Hyd at £1,500 i bob prosiect neu weithgaredd.
- **Rowndiau cyllido**: Byddant yn agor ym mis Gorffennaf, mis Hydref a mis Ionawr a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ym mis Awst, mis Tachwedd a mis Chwefror.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut y mae eu prosiect yn cefnogi diben ateb, a dangos ei effaith ar gymunedau a'i gynaliadwyedd hirdymor. Mae tystiolaeth o'r costau a dadansoddiad o'r defnydd a wneir o'r cyllid yn ofynnol hefyd.

## Meini prawf

Dylai prosiectau rymuso cymunedau drwy rannu sgiliau, gwybodaeth neu hyfforddiant er mwyn sicrhau manteision cynaliadwy y tu hwnt i'r grant. Ni ellir defnyddio cyllid ar gyfer y canlynol:

- Unigolion neu deuluoedd unigol; rhaid bod yr effaith o fudd i grwpiau ehangach.
- Gweithgareddau neu brosiectau y mae ffynonellau eraill o incwm yn talu amdanynt (e.e. rhenti, taliadau gwasanaeth).
- Cyflogau (gellir ystyried talu am arbenigedd allanol).
- Prosiectau sy'n gofyn am fwy na £1,500 neu sy'n cyfrannu i botiau mwy o gyllid.

Rhaid i geisiadau lynu wrth reoliadau llywodraethiant ac ni chânt weithredu'n groes i ddeddfwriaeth ynghylch tai. Mae croeso i gymdeithasau tenantiaid cyfansoddiadol ateb a sefydliadau/mudiadau dielw wneud cais.

Mae'r meini prawf yn eu cyfanrwydd i'w gweld ar ein gwefan: https://www.atebgroup.co.uk/ymddiriedolaethateb/

## Adran 1: Ynglŷn â'ch sefydliad/mudiad

Yn yr adran hon, rydym yn gofyn i chi roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eich sefydliad/mudiad.

| | |
|---|---|
| **Enw'r sefydliad/mudiad:** | |
| **Mewn un frawddeg, dywedwch wrthym yn fras beth yr ydych yn ei wneud:** | |
| | |
| **Prif unigolyn cyswllt** | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad ebost: | |
| Rhif ffôn: | |
| **Unigolyn cyswllt arall** | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad ebost: | |
| Rhif ffôn: | |

**Math o sefydliad/mudiad — dewiswch o blith y canlynol:**

Mudiad gwirfoddol ☐

Grŵp cymunedol ☐

Sefydliad/mudiad dielw ☐

Elusen gofrestredig ☐

Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr ateb ☐

Arall ☐

Os 'Arall', dywedwch fwy wrthym:

**Ers faint o amser rydych yn bodoli? (Dewiswch o blith y canlynol):**

Llai na 3 mis ☐

3 i 6 mis ☐

6 i 12 mis ☐

1 i 2 flynedd ☐

Dros 2 flynedd ☐

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad gwefan:** | |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadau URL ar gyfryngau cymdeithasol:** | |

## Adran 2: Ynglŷn â'ch prosiect

Yn yr adran hon, rydym am ddod i ddeall eich prosiect, o ble y daeth y syniad a pha effaith y bydd y prosiect yn ei chael.

**Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect. Ni ddylai gynnwys mwy na 500 o eiriau a dylai egluro sut y bydd y prosiect yn sicrhau budd i bobl a chymunedau ateb ac yn cefnogi ateb i gyflawni ei ddiben.**



ateb Creating better Living Solutions

| Ble y bydd eich prosiect wedi'i leoli / yn cael ei gyflawni? |
| --- |
| |
| **Dywedwch wrthym faint o gyllid yr ydych yn gofyn amdano (hyd at uchafswm o £1,500). Ar beth y bydd yr arian yn cael ei wario (gorau oll os gallwch roi dadansoddiad o'r costau)?** |
| |
| **Ble y clywsoch am Ymddiriedolaeth ateb?** |
| |

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen gais, anfonwch hi drwy ebost i:
atebtrust@atebgroup.co.uk

Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech gael y ffurflen hon mewn fformat arall.



ateb Creating better Living Solutions